



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhif: WG45175

Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – Crynodeb o'r Ymatebion

Mesurau Rheoli Pysgodfeydd Cocos 2022

Crynodeb o'r Ymgynghoriad

Mai 2022

ISBN 978-1-80364-277-2

Cynnwys

Tudalen

1) Cefndir	3
2) Cyfnod ymgynghori a dosbarthu	3
3) Ymatebion	4
4) Cwestiynau'r ymgynghoriad	4 - 8
5) Crynodeb	8
6) Y camau nesaf	8

1. Cefndir

Llywodraeth Cymru sy'n rheoli pysgodfeydd cocos cyhoeddus Cymru. Mae pysgodfeydd cocos Gogledd Cymru yn cael eu rheoli ar hyn o bryd o dan Orchymyn Cocos a Chregyn Gleision (Ardal Benodedig) (Cymru) 2011 ac Is-ddeddfau Pwyllgor Pysgodfeydd Môr Gogledd-orllewin Lloegr a Gogledd Cymru (NWNWSFC) gynt. Ar hyn o bryd rheoleiddir Pysgodfeydd De Cymru dan is-ddeddfau Pwyllgor Pysgodfeydd Môr De Cymru gynt.

Mae'r ddeddfwriaeth bresennol a ddefnyddir i reoli pysgodfeydd cocos cyhoeddus yn hen ac yn anghyson ac mae angen ei diweddarau. Mae adborth o ymgynghoriadau cyhoeddus yn y gorffennol ar fesurau rheoli cocos newydd, ceisiadau diweddar gan y diwydiant cocos a gwybodaeth a gasglwyd mewn treial diweddar i agor Pysgodfa'r Tair Afon, i gyd yn nodi llawer o faterion y mae angen mynd i'r afael â nhw.

Cafodd yr ymgynghoriad hwn ei lansio i gasglu adborth ac i asesu barn y cyhoedd ar y mesurau newydd sy'n cael eu cynnig. Bwriad hyn yw:

- Sicrhau bod yr amgylchedd a chynaliadwyedd pysgodfeydd cocos Cymru yn cael ei ddiogelu yn y dyfodol drwy reoli addasadol.
- Addasu'r system ar gyfer gwneud cais am drwydded i sicrhau bod casglwyr yn gweithio mewn modd cyfreithlon a diogel.
- Addasu a symleiddio'r gwaith o reoli'r holl bysgodfeydd cocos cyhoeddus yng Nghymru, er mwyn sicrhau bod ein stociau cocos yn gynaliadwy a diogelu'r amgylchedd ehangach ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Bydd hyn yn cynnwys cyflwyno Trwydded ar gyfer Cymru gyfan i gasglu cocos ar unrhyw bysgodfa gyhoeddus neu bob un o'r pysgodfeydd cyhoeddus yng Nghymru.

2. Cyfnod ymgynghori a dosbarthu

Dechreuodd yr ymgynghoriad ar 11 Chwefror 2022 gan ddod i ben ar 6 Mai 2022.

Rhoddwyd cyhoeddusrwydd eang i'r ymgynghoriad ledled Cymru. Cafodd ei gyhoeddi ar wefan LLYW.CYMRU ac yn Fishing News a gosodwyd hysbysiadau cyhoeddus ym mhob pysgodfa rhynglanwol hysbys ac yn yr ardaloedd lle byddai'n debygol y byddai gan y cyhoedd ddiddordeb. Yr un pryd, rhannwyd yr ymgynghoriad dros e-bost a thrwy'r post â rhanddeiliaid hysbys, gan gynnwys casglwyr a phroseswyr cocos, trigolion lleol, perchenogion tir, cyrff a mudiadau ac awdurdodau sydd â diddordeb yn y diwydiant.

Roedd yn bosibl ymateb trwy lenwi ffurflen ar-lein, dros e-bost neu drwy ymateb ysgrifenedig.

3. Ymatebion

Hoffai Llywodraeth Cymru ddiolch i bawb a roddodd o'u hamser i gyflwyno eu barn ac ymateb i'r ymgynghoriad, Byddwn yn cloriannu'r holl ymatebion cyn rhoi'r cynigion ar waith.

Daeth cant a saith deg pedwar o ymatebion i law, gan amrywiaeth o unigolion a chyrrff sydd â diddordeb yn niwydiant cocos Cymru.

O'r rhain, daeth 80 i law dros wefan Llywodraeth Cymru, daeth 80 arall ar ffurf ffurflenni ymateb dros e-bost a daeth 14 arall fel ymatebion ysgrifenedig dros e-bost ond ddim ar ffurflen ymateb.

Nid oedd yr 14 ymateb a gyrhaeddodd dros e-bost ond nid ar ffurflen ymateb yn ateb cwestiynau penodol yr ymgynghoriad. Fodd bynnag, roeddent yn ymatebion uniongyrchol i'r ymgynghoriad ac fe'u derbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori. Felly, maent wedi cael eu hystyried gyda'r ymatebion eraill i'r ymgynghoriad.

Gellir rhannu'r 14 ymateb ysgrifenedig yn fras yn 5 grŵp:

- a) pryderon bod nifer y casglwyr yn "mynd y tu hwnt i bob rheswm";
- b) beirniadaeth o Lywodraeth Cymru am gymryd 30 mlynedd i geisio unioni'r problemau ac am beidio â gwrando ar gasglwyr;
- c) yr angen am feini prawf cymhwysedd llymach, h.y. cymwysterau diogelwch a chapteniaid;
- d) yr angen am gysylltiadau cryfach ag Awdurdodau Lleol a'r FSA ynghylch dogfennau symud; ac
- e) yr angen i drwyddedu'r pysgodfeydd (capiu nifer y trwyddedau).

Cynhaliwyd tri chyfarfod wyneb yn wyneb yn yr awyr agored ym mis Ebrill gyda deiliaid trwyddedau a phroseswyr yn Ne Cymru i drafod y cynigion a ddisgrifir yn yr ymgynghoriad. Anogwyd y rhai a oedd yn bresennol i lenwi ffurflenni ymateb a'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru cyn y dyddiad cau, sef 6 Mai. Argymhellwyd eu bod yn cyflwyno ymatebion unigol lle medrent er mwyn sicrhau bod barn pawb yn cael ei hystyried.

Cyhoeddwyd erthygl gan Gymdeithas Casglwyr y Tair Afon ac un Prosesydd yn rhifyn 31 Mawrth Fishing News. Er eu bod yn cytuno â chynigion ymgynghoriad Llywodraeth Cymru, roedd arwydd cryf yn yr erthygl eu bod am weld capio nifer y trwyddedau ar gyfer y Tair Afon.

4. Cwestiynau'r ymgynghoriad

Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn am sylwadau ar nifer o gynigion. Daeth 174 o ymatebion i law.

Dyma fanylion yr ymatebion isod:

Cwestiwn 1	Beth yw eich diddordeb yn y diwydiant cocos yng Nghymru?
Cafwyd ymatebion i'r cwestiwn hwn gan y canlynol:	
133 o Gasglwyr Masnachol 3 o Gasglwyr Hamdden 1 Prynwr 1 Prosesydd 10 o ymatebwyr Amgylcheddol/Cadwraethol 2 o Orfodwyr/Rheoleiddwyr 6 o alwedigaethau eraill/partïon â diddordeb heb ymateb 140 o'r ymatebwyr yn byw yng Nghymru 19 o'r ymatebwyr yn byw yn Lloegr 1 o'r ymatebwyr yn byw yn yr Alban	
Cwestiwn 2	A ydych yn cytuno â bwriadau Llywodraeth Cymru i wella rheolaeth a chynaliadwyedd pysgodfeydd cocos a diogelu'r amgylchedd drwy gyflwyno deddfwriaeth newydd?
153 (96%) wedi ateb YDW 5 (3%) wedi ateb NAC YDW 2 (1%) heb ateb y cwestiwn hwn	
Cwestiwn 3	A ydych yn cytuno â chyhoeddi trwyddedau cocos blynyddol ar gyfer Cymru gyfan, fel y disgrifir yng nghynnig A?
134 (84%) wedi ateb YDW 24 (15%) wedi ateb NAC YDW 2 (1%) heb ateb y cwestiwn hwn	
Cwestiwn 4	A ydych o blaid cyflwyno terfyn dyddiol os ystyrir bod angen, fel y nodir yng nghynnig A?
76 (47.5%) wedi ateb YDW 83 (52%) wedi ateb NAC YDW 1 (1%) heb ateb y cwestiwn hwn	

Cwestiwn 5	A ydych o blaid cynnal gwiriadau o gymhwysedd y rhai sy'n gwneud cais am Drwydded Gocos Cymru Gyfan, fel y disgrifir yng nghynnig B?
154 (96%) wedi ateb YDW 4 (3%) wedi ateb NAC YDW 2 (1%) heb ateb y cwestiwn hwn	
Cwestiwn 6	A ydych o blaid codi ffi flynyddol am drwydded gocos, fel y disgrifir yng nghynnig C?
145 (91%) wedi ateb YDW 13 (8%) wedi ateb NAC YDW 2 (1%) heb ateb y cwestiwn hwn	
Cwestiwn 7	A ydych o blaid amodau trwydded gyffredinol sydd ynghlwm wrth bob trwydded fel y disgrifir yng nghynnig D?
146 (91.25%) wedi ateb YDW 9 (5.75%) wedi ateb NAC YDW 5 (3%) heb ateb y cwestiwn hwn	
Cwestiwn 8	A ydych o blaid cyflwyno datganiad dalfa dyddiol i alluogi monitro effeithiol fel a ddisgrifir yng Nghynnig D?
145 (91%) wedi ateb YDW 13 (8%) wedi ateb NAC YDW 2 (1%) heb ateb y cwestiwn hwn	
Cwestiwn 9	A ydych o blaid y cynnig ar gyfer rheoli pysgodfeydd cocos mewn modd addasol drwy amodau lleol ychwanegol sy'n benodol i bysgodfeydd unigol a enwir, fel y disgrifir yng nghynnig E?
151 (94.5%) wedi ateb YDW 5 (3%) wedi ateb NAC YDW 4 (2.5%) heb ateb y cwestiwn hwn	
Cwestiwn 10	A ydych yn cytuno â'r cynnig i safoni'r lwfans hamdden ar gyfer casglu cocos at ddibenion personol ledled Cymru, fel y disgrifir yng nghynnig F?
148 (92.5%) wedi ateb YDW 7 (4.5%) wedi ateb NAC YDW 5 (3%) heb ateb y cwestiwn hwn	
Cwestiwn 11	Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r newidiadau i'r ffordd y mae pysgodfeydd cocos yn cael eu rheoli yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a hefyd yr effaith y byddent yn ei chael o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

	Beth, yn eich barn chi, fyddai'r effeithiau? Sut y gellir cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol?
Penderfynodd llawer o'r ymatebwyr beidio ag ateb y cwestiwn hwn, ond o'r rheini a wnaeth, codwyd tair prif thema: • Byddent yn cael effeithiau cadarnhaol ar y Gymraeg • Nid oedd y cwestiwn hwn yn berthnasol i reoli pysgodfeydd cocos Cymru • Dylid trin pob iaith yn gyfartal gan fod Cymru'n cael ei gweld yn gymdeithas amlddiwylliannol lle caiff llawer o ieithoedd eraill eu siarad. •	
Cwestiwn 12	Eglurwch hefyd sut rydych yn credu y gellid newid neu addasu'r polisïau ar gyfer rheoli pysgodfeydd cocos i sicrhau eu bod yn cael effeithiau cadarnhaol neu effeithiau mwy helaeth ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar drin y Gymraeg yn yr un ffordd â'r Saesneg, ac na fydd unrhyw effeithiau anffafriol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg nac ar drin y Gymraeg yr un mor ffafriol â'r Saesneg.
Unwaith eto, penderfynodd llawer o'r ymatebwyr beidio ag ateb y cwestiwn hwn, ond o'r rheini a wnaeth, codwyd tair prif thema: • Dylid trin pob iaith yn gyfartal • Byddai'n golygu bod casglwyr cocos sy'n siarad Cymraeg yn teimlo'n fwy cyfforddus wrth siarad Cymraeg yn y gwaith • Mae mwy yn ffafrio'r Saesneg gan ei bod yn iaith a siaredir gan bawb	
Cwestiwn 13	Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os hoffech wneud sylwadau ar unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw'n benodol, defnyddiwch y blwch isod i'w nodi:
Cafwyd llawer o atebion i'r cwestiwn hwn. Codwyd dwy thema yn arbennig: 1) Pryderon nad yw offer priodol/cyfreithlon ar gyfer casglu cocos yn cael eu defnyddio ar y gwelyau cocos a bod angen mesurau llymach i orfodi hyn. (71 o ymatebion) 2) Gan fod terfyn ar faint llwyth wedi'i bennu eisoes ar gyfer cychod sydd â'r codau MCA newydd, teimlwyd nad oes angen cwota dyddiol (79 o ymatebion) Mynegwyd pryderon amgylcheddol penodol: 1) Hoffwn weld y diwydiant casglu cocos yn dod i ben - yn sicr yn yr aber o amgylch Porth Tywyn a Ginst. Mae'n ardal y dylid ei rheoli'n sensitif er lles natur ond ar hyn o bryd, oherwydd y diwydiant cocos, mae cerbydau trwm yn mynd ar y traeth, mae'r twyni a'r gors yn cael eu dinistrio – ac mae gwastraff plastig yn cael ei adael (yn enwedig bagiau rhwylllog). Mae cocos yn adnodd gwerthfawr ar gyfer bwydo adar sy'n gaeafu. Nid yw'n darparu incwm rheolaidd - ac nid yw'r rheini sy'n dod i gasglu i'w gweld yn bobl leol. Mae'r symiau sy'n cael eu cymryd yn sylweddol - gyda loriëidiau'n cael eu cludo i ffwrdd. 2) Yr unig gyfeiriad at gadwraeth amgylcheddol yn y ddogfen yw o dan y rhestr 'nodau'. Mae'n hynod bwysig atal difrod amgylcheddol i'r ardaloedd arfordirol y mae'r casglwyr yn eu defnyddio i fynd i'r gwelyau; lle maent yn gyrru eu cerbydau ac yn lansio eu cychod ac ati. Ond nid oes sôn am hynny yn y ddogfen. Mae ein	

grŵp ac unigolion a grwpiau eraill yng nghyffiniau Aber y Tair Afon wedi cwyno dro ar ôl tro yn y blynyddoedd diwethaf am y difrod i'r twyni a'r morglawdd ac am y tywod sy'n cael ei gorddi yn y cynefinoedd bregus yn Ginst Point, sy'n gartref i fflora a ffawna morol prin. Credwn yn gryf y dylai unrhyw un a geir yn niweidio'r amgylchedd yn fwriadol fel hyn neu yn gollwng plastig a gwastraff arall ar y tir neu yn y môr golli ei drwydded ac y dylid cynnwys hyn yn y ddeddfwriaeth. Yn y cyswllt olaf hwn, rydym yn pryderu am y sôn am ddefnyddio rhwydi. Gallent gael eu colli yn y môr neu eu gollwng ar y traeth fel y bagiau cocos ar hyn o bryd. Dylid cael system o archwiliadau hap a threfn i ymateb i gwynion lleol er mwyn monitro hyn.

Cafwyd syniadau hefyd ynghylch y meini prawf cymhwysedd:

- Prawf bod gan y capten gymwysterau os defnyddir cwch
- Prawf o fod wedi dilyn cwrs cwch pŵer 2, sydd wedi'i gymeradwyo'n fasnachol, os defnyddir cwch
- Prawf o fod wedi dilyn cwrs goroesi yn y môr
- Prawf o fod wedi dilyn cwrs radio
- Prawf ffitrwydd meddygol i fynd i bysgodfa gocos e.e. tystysgrif ML5

Dyma ymatebion eraill i'r ymgynghoriad sy'n werth eu nodi ac a roddwyd dros y ffôn i swyddogion yn ystod cyfnod yr ymgynghoriad:

- Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno cynllun rheoli, grŵp rheoli a threfn gwyno
- Yr angen am fwy o Gyrsiau i Gasglwyr y Glannau

Defnyddiodd rhai pobl y ffurflen ymgynghori i fynegi'u pryderon ynghylch mynediad, deddfwriaeth cychod, parcio a chamddefnyddio sylweddau. Mae'r pryderon hyn wedi'u trosglwyddo i'r awdurdodau gorfodi perthnasol.

5. Crynodeb

Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys cais am sylwadau ar y cynigion a roddwyd ger bron ynghylch mesurau rheoli cocos. Roedd y canlyniadau'n dangos bod cefnogaeth gref i'r cynigion heblaw am un, sef "gosod terfyn dyddiol", a rannodd y farn yn gyfartal.

6. Y camau nesaf

Mae swyddogion polisi Llywodraeth Cymru wedi ystyried yr holl ymatebion a sylwadau sydd wedi dod i law. Bydd swyddogion nawr yn paratoi papur i'r Gweinidog am y canlyniadau.

